

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Parkway Dental Clinic

Dyddiad arolygu: 24 Awst 2021

Dyddiad cyhoeddi: 25 Tachwedd
2021

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	13
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	19
3.	Beth nesaf?	22
4.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol	24
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	25
	Atodiad B – Cynllun Gwella Uniongyrchol	26
	Atodiad C – Cynllun gwella	27

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol am ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arferion da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Parkway Dental Clinic yn Heol Lamberts, Y Glannau, Abertawe, SA1 8EL, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, ar 24 Awst 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Parkway Dental yn darparu gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol i'w gleifion.

Gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth gref ac roedd y polisiau a'r gweithdrefnau gofynnol ar waith i gefnogi'r cleifion a'r staff.

Roedd yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw i safon uchel iawn, ac roedd yr ardaloedd clinigol yn cynnwys adnoddau digonol, ac roeddent yn lân ac mewn cyflwr da.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y practis yn rhoi gwybodaeth gynhwysfawr i'r cleifion
- Roedd y practis yn cadw pob rhan o'r adeilad i safon uchel
- Roedd gan y practis drefniadau llywodraethu effeithiol ar waith i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r practis sicrhau bod y trefniadau ar gyfer cadw cofnodion yn cydymffurfio â safonau proffesiynol.

Ni nodwyd unrhyw feysydd lle roedd diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Parkway Dental Clinic yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardaloedd De a Gorllewin Cymru.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys 13 o ddeintyddion, pedwar hylenydd, 24 o nyrsys deintyddol, 12 aelod o staff gweinyddol, un rheolwr practis, tri anesthetydd, dau ddeintydd ymgynghorol arbenigol ac un nyrs gyffredinol gofrestredig.

Mae'r practis yn darparu gwasanaethau deintyddol cyffredinol preifat yn ogystal â gwasanaethau arbenigol preifat gan gynnwys gwasanaethau a roddir gan ddefnyddio cyffuriau tawelu ac anesthetig cyffredinol.

Roedd yr arolygiad a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn yn ystyried y practis deintyddol cyffredinol yn unig.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwelsom fod Parkway Dental yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn ardderchog neu'n dda iawn. Dywedodd y cleifion wrthym hefyd fod y staff yn y practis deintyddol yn eu trin ag urddas a pharch.

Roedd y practis yn darparu amrywiaeth o wybodaeth er mwyn helpu cleifion i wneud dewisiadau effeithiol am eu hopsiynau o ran triniaeth. Roedd yr awyrgylch yn groesawgar, a gwelsom y staff yn gwneud ymdrech i wneud i'r cleifion ymlacio a theimlo'n gartrefol o'r eiliad yr oeddent yn cyrraedd.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 28 o holiaduron. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Tîm gwyh, caredig, cymwysnasgar ac effeithlon"

"Rwyf wedi cael gofal, gwasanaeth a sylw heb ei ail dros y blynyddoedd"

"Rwyf mor hapus â'r gofal rwy'n i gael yn Parkway; fyddwn i ddim ystyried mynd rhywle arall"

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi dweud wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach. Ategwyd hyn hefyd gan gofnodion y cleifion a archwiliwyd gennym. Roedd tystiolaeth yn y cofnodion o gyngor a roddwyd ar wybodaeth iechyd y geg, cyngor ar ddeiet, rhoi'r gorau i smygu a'r cyswllt rhwng alcohol/smygu ac iechyd y geg. Roedd yn

amlwg bod y cleifion yn cael eu hannog i newid eu hymddygiad ac yn cael eu cefnogi i wneud hynny.

Lle y bo'n gymwys, dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys cymaint ag yr hoffent mewn unrhyw benderfyniadau am eu triniaeth. Gwnaethant hefyd ddweud eu bod wedi cael gwybodaeth glir am y triniaethau sydd ar gael a bod y gost bob amser yn cael ei hegluro cyn iddynt gael unrhyw driniaeth.

Gofal ag urddas

Yn ddieithriad, roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff pan wnaethant ymweld â'r practis.

Gwelsom gleifion yn cael eu cyfarch a'u croesawu gan staff y dderbynfa mewn ffordd broffesiynol a chyfeillgar. Pe bai angen siarad â chlaf yn breifat, gallai'r staff gynnal sgysiau o'r fath mewn swyddfa fach neu mewn ystafell ymgynghori gerllaw'r dderbynfa. Roedd hwb galwadau yn delio â galwadau ffôn mewn ystafell gynadledda ar wahân i ardaloedd y cleifion, felly roedd modd ateb galwadau'n breifat.

Roedd gan y practis bolisiau priodol ar waith hefyd i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch. Gwelsom fod poster cod egwyddor, ymarfer proffesiynol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'i arddangos yn ardal aros y cleifion.

Gwelsom fod drysau'r ystafelloedd triniaeth yn cael eu cau yn ystod apwyntiadau i ddiogelu preifatrwydd y cleifion. Nodwyd bod paneli gwydr mawr yn rhai o'r drysau hyn, a oedd yn golygu bod modd i bobl edrych i mewn wrth gerdded heibio pan fyddai triniaeth yn cael ei rhoi. Rhaid i'r practis sicrhau bod urddas y cleifion yn cael ei gynnal bob amser drwy gydol taith y claf.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod urddas y cleifion yn cael ei gynnal bob amser.

Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi teimlo'n rhan o unrhyw benderfyniadau a wnaed am eu triniaeth, gymaint ag yr oeddent am fod yn rhan o hynny. Gwnaethant hefyd ddweud eu bod wedi cael

gwybodaeth glir am y triniaethau sydd ar gael a bod y gost bob amser yn cael ei hegluro cyn iddynt gael unrhyw driniaeth.

Gwelsom enghraifft o becyn croeso a fyddai'n cael ei roi i gleifion newydd. Roedd y pecyn croeso yn darparu gwybodaeth gyffredinol am y practis yn nhaflen y practis, yn ogystal ag enwau a rhifau ffôn cyswllt defnyddiol, taflenni am driniaethau gan gynnwys costau; a lle y bo'n briodol, opsiynau triniaeth a phrisiau wedi'u teilwra i'w ystyried.

Nodwyd bod y rhestr brisiau yn nodi costau triniaethau ar y wefan hefyd.

Er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo COVID-19, roedd yr holl wybodaeth papur ddiangen wedi cael ei symud o'r ardaloedd aros. Fodd bynnag, roedd gwybodaeth gynhwysfawr ar gael ar wefan y practis.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod 'bob amser' yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith.

Dywedwyd wrthym fod staff y practis yn siarad nifer o ieithoedd, a oedd yn golygu bod gan y cleifion nifer o opsiynau i siarad â chlinigydd yn eu dewis iaith. Pe bai angen cyfathrebu â chlaf a oedd yn siarad iaith nad oedd yr un o'r staff yn ei siarad, gallai'r practis ddefnyddio llinell iaith i gael gwasanaethau cyfieithu.

Roedd gwasanaethau a gwybodaeth ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, ac roedd y siaradwyr Cymraeg yn y practis yn gwisgo bathodynau i roi gwybod i'r cleifion bod modd siarad â nhw yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Gofal amserol

Dywedodd ychydig dros draean o'r cleifion a gwblhaodd holiadur na fyddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe byddai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Roedd gwybodaeth am sut y gallai cleifion gael gafael ar ofal deintyddol brys pan oedd y practis ar gau yn y canllaw i gleifion ac yn cael ei rhoi fel rhan o neges peiriant ateb y practis. Fodd bynnag, o ystyried canfyddiadau'r holiadur, efallai y bydd y practis am ystyried ffyrdd eraill o sicrhau bod ei gleifion yn gwybod sut i gael gafael ar ofal brys yn ôl yr angen.

Mae'r practis yn sicrhau bod ceisiadau am apwyntiadau brys yn cael eu brysbennu gan glinigydd a bod darpariaethau yn cael eu rhoi ar waith os bydd angen.

Roedd y practis yn ymdrechu i sicrhau bod y cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Dywedodd y staff wrthym pe byddai deintydd yn rhedeg yn hwyr, y byddent yn rhoi gwybod i'r claf a oedd yn aros am unrhyw oedi ac yn cynnig apwyntiad arall, pe byddai hynny'n briodol, heb godi unrhyw gostau ychwanegol.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Dangosodd adolygiad o gofnodion y cleifion fod y cleifion yn cael eu holi ynghylch eu hanes meddygol pan fyddant yn ymweld â'r practis.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion perthnasol a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn gofyn iddynt am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

Hawliau pobl

Gwelsom fod mynediad i'r practis yn dda. Roedd y practis ar y llawr cyntaf, ac roedd ei gyrraedd drwy ddefnyddio grisiau neu lifft. Roedd yr holl ddrysau yn addas i gadeiriau olwyn, ac roedd ystafelloedd ymolchi i'r anabl ar gael ar bob lefel o'r adeilad.

Nodwyd bod sawl polisi ar waith i gefnogi staff a chleifion, gan gynnwys polisi cyfle cyfartal. Roedd hyn yn golygu bod y practis yn gallu cyflawni ei ymrwymadau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Roedd polisi Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd ar waith yn y practis, yn ogystal â pholisi Cyfle Cyfartal a pholisi Cyfrinachedd.

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Roedd polisi cwynion manwl ar waith yn y practis, a oedd yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017¹.

¹ <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/202/made/welsh>

Roedd y practis yn cadw ffolder cynhwysfawr yn cynnwys cofnodion o'r cwynion llafar ac ysgrifenedig a dderbyniwyd, y camau a gymerwyd a'r canlyniadau. At hynny, roedd prosesau ar waith i gefnogi'r staff i ymateb i gwynion yn briodol.

Roedd y practis yn casglu adborth yn rheolaidd drwy adolygiadau ar-lein, ac unwaith y flwyddyn drwy ffurflen adborth gan gleifion. Roedd y practis yn trafod adborth mewn cyfarfodydd tîm, ac roedd canlyniadau'r adborth yn cael eu rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar sgriniau yn yr ystafell aros.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gwelsom dystiolaeth bod y cleifion yn cael gofal deintyddol diogel ac effeithiol.

Nodwyd bod y cyfleusterau clinigol yn cynnwys adnoddau digonol ac yn cael eu cadw i safon uchel iawn.

Gwelsom rai anghysondebau o ran cadw cofnodion rhwng clinigwyr, ac argymhellwyd y dylid cynnal archwiliad o'r cofnodion i sicrhau bod yr holl ddeintyddion yn cofnodi gwybodaeth yn gyson.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, gwelsom fod trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y staff sy'n gweithio yn y practis a'r cleifion sy'n ymweld ag ef. Roedd y tu allan i'r adeilad yn ymddangos fel petai'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Roedd y tu mewn i'r adeilad yn olau, yn daclus ac yn fawr.

Gwelsom fod nifer o bolisiau ar waith mewn perthynas ag addasrwydd yr adeilad, gan gynnwys polisi iechyd a diogelwch a pholisi wrth gefn mewn argyfwng. Roedd polisiau ac asesiadau risg ar gael yn hawdd i bob aelod o'r staff ac yn cael eu nodi mewn cyfarfodydd tîm. Roedd asesiad risg amgylcheddol ar waith hefyd er mwyn helpu i ddiogelu'r staff a'r cleifion.

Nodwyd bod polisiau newydd yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd tîm ac yna byddai'r staff yn cytuno iddynt ac yn eu llofnodi. Golygai hyn fod y staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y polisiau a'r gweithdrefnau a oedd ar waith i'w cefnogi yn eu rolau.

Gwelsom fod dyfeisiau diffodd tân ar gael mewn amrywiol leoliadau yn yr adeilad a nodwyd gennym eu bod wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd yr holl ddyfeisiau diffodd tân wedi'u clymu i'r waliau'n briodol.

Roedd asesiad risg diogelwch tân ar waith yn y practis, yn ogystal â pholisi tân. Roedd rhai aelodau o staff wedi derbyn hyfforddiant tân, ond gwnaethom

awgrymu y dylid darparu hyfforddiant mewnol i'r holl staff er mwyn rhoi dealltwriaeth o ddiogelwch tân iddynt.

Gwelsom fod pecynnau cymorth cyntaf ar gael yn y practis, a bod pob un ohonynt yn cynnwys cyfarpar priodol a oedd yn gyfredol. Roedd y practis wedi trefnu i nifer o aelodau o'r staff fynd ar gwrs cymorth cyntaf yn y dyfodol agos i sicrhau bod nifer mawr o staff wedi'u hyfforddi'n briodol pe bai damwain.

Roedd digon o gyfarpar dadebru digonol yn y practis, gan gynnwys blychau cyfleus a oedd yn cynnwys y cyfarpar priodol y byddai ei angen mewn gwahanol fathau o argyfwng.

Atal a rheoli heintiau

Gwelsom fod contractau ar waith ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig) yn ddiogel. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio'n briodol.

O dan Reoliadau Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd 2002, mae angen i gyflogwyr naill ai atal neu leihau amlygiad staff i sylweddau sy'n beryglus i'w hiechyd. Gwelsom fod gan y practis brotocol 'Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd' (COSHH) a pholisi ar gyfer trin a thrafod mercwri.

Roedd gan y practis broses ar gyfer glanhau a sterileiddio (dihalogi) offerynnau deintyddol yn y ddwy ystafell ddihalogi benodedig. Gwelsom dystiolaeth fod protocol ar waith i wirio'r offer sterileiddio a'i fod yn gyfredol.

Roedd pob deintyddfa yn y practis yn cynnwys cwpwrdd â dwy ochr a oedd yn golygu bod modd pasio offerynnau i mewn i'r ddeintyddfa o'r coridor drwy'r cwpwrdd heb y risg o halogi'r ystafell pan oedd triniaeth yn cael ei rhoi.

Roedd polisi rheoli heintiau a pholisi diogelwch offer miniog ar gyfer y staff, yn ogystal ag asesiad risg cynhwysfawr ar gyfer defnyddio offer miniog yn ddiogel yn y practis.

Roedd y deintyddfeydd yn amlwg yn lân ac yn daclus ac roedd gan y practis amserlen lanhau ddyddiol i'r staff ei dilyn er mwyn sicrhau bod pob un ohonynt yn cael eu cadw'n unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05.

Nodwyd bod polisi tegantau ar waith i sicrhau eu bod yn cael eu glanhau'n effeithiol, ar nid oedd unrhyw deganau i'w gweld ar ddiwrnod yr arolygiad.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau ar waith yn y practis i ymdrin ag argyfyngau mewn perthynas â chleifion, gan gynnwys polisi dadebru.

Mae dyletswydd ar ddarparwyr gofal iechyd i ddarparu sgiliau dadebru os bydd unigolyn yn dioddef ataliad cardio-anadlol ac i sicrhau y caiff staff eu hyfforddi a'u diweddarau'n rheolaidd hyd at lefel o fedrusrwydd sy'n briodol ar gyfer eu rôl². Gwelsom dystiolaeth bod y mwyafrif o'r staff wedi cael hyfforddiant yn ystod y deuddeg mis diwethaf ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i ymgymryd â thriniaeth dadebru cardiobwlmonaidd (CPR). Trefnwyd i dri aelod o'r staff gwblhau'r hyfforddiant hwn rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2021, ond canslwyd yr hyfforddiant o ganlyniad i bandemig COVID-19. Gwelsom dystiolaeth bod yr hyfforddiant wedi cael ei aildrefnu ar gyfer yr aelodau hyn o'r staff.

Roedd gan y practis y cyffuriau brys a'r cyfarpar dadebru brys priodol, yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU)³. Roedd y rhain yn cael eu storio yn ardal staff yr ysbyty deintyddol yn ystod y dydd. Roedd gan y practis bolisiau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith i sicrhau bod modd cael gafael ar feddyginiaethau'n briodol, yn ogystal â'u trin, eu defnyddio, eu storio a'u gwaredu'n briodol, ac roedd pob aelod o'r staff wedi cytuno ar y polisiau a'r gweithdrefnau hynny.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Gwelsom fod polisiau a gweithdrefnau ar waith yn y practis i hybu ac amddiffyn lles plant ac oedolion agored i niwed. Roedd y polisiau hyn yn cynnwys manylion cyswllt yr asiantaethau diogelu perthnasol yn yr ardal. Nodwyd bod Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan ar gael yn hawdd i'r staff.

Roedd y Rheolwr Cofrestredig yn dangos dealltwriaeth dda o rwymedigaethau'r practis, a disgrifiodd y camau a fyddai'n cael eu cymryd pe bai pryder yn cael ei

² <https://www.resus.org.uk/quality-standards/primary-dental-care-quality-standards-for-cpr/>

³ Nod y Cyngor Dadebru (y DU) yw hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, a chyfrannu at achub bywydau drwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithredu

godi. Roedd swyddog diogelu arweiniol y practis wedi cwblhau hyfforddiant lefel uwch ar ddiogelu er mwyn sicrhau bod ganddo'r sgiliau a'r ddealltwriaeth briodol o faterion diogelu i weithredu fel swyddog arweiniol.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod cyfarpar priodol yn y deintyddfeydd er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol.

Roedd y cyfarpar radiolegol (pelydr-X) mewn cyflwr da ac roedd yr ardaloedd rheoledig wedi'u nodi. Gwelsom ddogfennaeth i ddangos bod y peiriannau pelydr-X yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd y ffeil diogelu rhag ymbelydredd yn gyfredol ac yn gynhwysfawr, ac yn cynnwys yr holl wybodaeth hanfodol. Gwelsom fod y rheolau lleol⁴ ar gael i'r staff.

Yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol⁵ a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol)⁶ 2017, roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd datganiad o ddiben y practis yn nodi'r trefniadau priodol ar gyfer derbyn, asesu, diagnosio a thrin cleifion. Roedd amrywiaeth o bolisiâu ar waith yn y practis i ategu'r swyddogaethau hyn hefyd.

Gwelsom dystiolaeth drwy gydol y dydd fod canllawiau proffesiynol, rheoliadol a statudol, megis canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn lechyd a Gofal (NICE)⁷, yn cael eu hystyried a'u dilyn lle y bo'n briodol.

⁴ Dylai rheolau lleol (neu weithdrefnau gwaith diogel) adlewyrchu arferion gwaith diogel ac ymwneud â'r gwaith o reoli diogelwch laserau, systemau IPL a dyfeisiau LED o ddydd i ddydd. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/474136/Laser_guidance_Oct_2015.pdf

⁵ Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol – <http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx>

⁶ http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2000/1059/pdfs/ukxi_20001059_en.pdf

1. ⁷ <https://www.nice.org.uk/.../oral-and-dental-health>

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Gwelsom dystiolaeth fod nifer cyfyngedig o archwiliadau clinigol ar waith yn y practis er mwyn helpu i ddangos bod y gwasanaeth yn cadw at y safonau proffesiynol cyfredol. Gwnaethom argymhell y dylid cynnal amrywiaeth ehangach o archwiliadau yn rheolaidd er mwyn hyrwyddo gwelliant parhaus.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn defnyddio adnoddau Gwella Ansawdd gan gynnwys Canllawiau Arfer Da Cymdeithas Ddeintyddol Prydain⁸. Adnoddau datblygu tîm yw'r rhain, sy'n annog y tîm i ganolbwyntio ar arferion gorau a gofynion deddfwriaethol, ac ar y ffordd maent yn gweithio gyda'i gilydd.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Gwelsom fod gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n ddiogel, gan sicrhau bod gwybodaeth bersonol a sensitif yn cael ei diogelu. Roedd gan y practis bolisi rheoli cofnodion hefyd. Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cadw'n electronig, ac roedd copïau wrth gefn yn cael eu gwneud yn ystod y nos. Roedd y practis wrthi'n comisiynu cwmni i wneud copïau wrth gefn oddi ar y safle hefyd, i ddiogelu gwybodaeth y cleifion ymhellach.

Cadw cofnodion

Cawsom olwg ar sampl o gofnodion y cleifion. Gwelsom nad oedd nifer o'r cofnodion a samplwyd yn ddigon manwl fel sy'n ofynnol. Gwelsom ddiffygion mewn nifer o gofnodion yn y meysydd canlynol:

- Asesiadau risg ar gyfer pydredd, clefyd periodontol, traul y dannedd a chanser y geg yn cael eu cofnodi'n anghyson;
- Dim tystiolaeth bod adnodd 'Delivering Better Oral Health'⁹ yn cael ei ddefnyddio.

⁸ Rhaglen sicrhau ansawdd yw cynllun Arfer Da Cymdeithas Ddeintyddol Prydain, sy'n galluogi ei haelodau i gyfleu ymrwymiad parhaus i weithio yn unol â safonau arfer da i'r cleifion

⁹ Adnodd seiliedig ar dystiolaeth gyda'r nod o roi cymorth i dimau deintyddol er mwyn gwella iechyd y geg ac iechyd cyffredinol eu cleifion

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau y caiff cofnodion y cleifion eu cwblhau'n unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom dystiolaeth o ddulliau rheoli ac arwain da yn y practis.

Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol ar waith yn y practis, a oedd yn cael eu hadolygu bob blwyddyn, a gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff wedi'u darllen.

Roedd gweithdrefnau rheoli cadarn ar waith er budd y staff, gan gynnwys arfarniadau staff blynyddol a chyfarfodydd staff rheolaidd.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Y Rheolwr Cofrestredig¹⁰ a dau Gyfarwyddwr, y mae un ohonynt hefyd yn Unigolyn Cyfrifol¹¹, sy'n berchen ar Parkway Dental. Y Rheolwr Cofrestredig, ynghyd â phedwar dirprwy reolwr sy'n rhedeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd. Mae'r Unigolyn Cyfrifol hefyd yn gweithio fel anesthetydd ymgynghorol.

Roedd amrywiaeth eang o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Roedd y datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol sy'n ofynnol gan y rheoliadau, ac roeddent ar gael i'r cleifion yn y pecyn croeso ac ar y wefan.

¹⁰ Ystyr "rheolwr cofrestredig" yw rhywun sydd wedi'i gofrestru o dan Ran 2 o'r Ddeddf fel rheolwr practis deintyddol preifat.

¹¹ Ystyr "unigolyn cyfrifol" yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall y sefydliad sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ffordd y caiff practis deintyddol preifat ei reoli.

Cadarnhaodd y Rheolwr Cofrestredig ei bod yn ymwybodol o'i dyletswyddau mewn perthynas â hysbysiadau, gan gynnwys anafiadau difrifol i gleifion ac absenoldeb y Rheolwr Cofrestredig neu newidiadau i'r Rheolwr Cofrestredig, y mae'n rhaid eu hanfon i AGIC.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Dirprwy reolwyr y practis sy'n gyfrifol am reoli Parkway Dental o ddydd i ddydd. Gwelsom fod y practis yn cael ei arwain yn dda gan y dirprwy reolwyr a'r perchenogion, a bod pob aelod o'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Roedd y staff yn groesawgar, yn gadarnhaol ac yn wybodus wrth siarad â'r tîm arolygu, ac roeddent yn canmol y cymorth roeddent yn ei gael gan y tîm rheoli.

Daeth llesiant y staff yn flaenoriaeth yn ystod pandemig COVID-19. Dywedwyd wrthym fod y practis wedi cau cyn y cyfyngiadau symud er mwyn blaenoriaethu diogelwch y staff. Pan ailagorodd y practis, gwelsom dystiolaeth bod gweithdrefnau cynhwysfawr wedi cael eu rhoi ar waith, gan gynnwys asesu'r risgiau i'r staff ac ystyried ymrwymïadau y tu allan i'r gwaith cyn gofyn i'r staff ddychwelyd. Roedd cyfarfodydd tîm ar gyfer yr holl staff yn parhau i gael eu cynnal dros Zoom, a sefydlwyd grŵp WhatsApp¹² er mwyn rhoi cyfle i'r staff gynnal sgysiau nad oeddent yn ymwneud â'r gwaith. Dywedwyd wrthym fod hyn wedi cryfhau cydberthnasau'r staff, a bod y cyflogeion yn teimlo'n hyderus ynghylch codi pryderon a materion pan oedd angen gwneud hynny.

Roedd amrywiaeth eang o bolisiau a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Gwelsom dystiolaeth bod y polisiau'n cael eu hadolygu bob blwyddyn mewn cyfarfodydd tîm gan y tîm rheoli a'r staff.

Gwelsom dystiolaeth bod gweithdrefnau recriwtio ac arfarnu cynhwysfawr ar waith. Roedd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd¹³ wedi cael eu cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff pan gawsant eu penodi, ac roedd pob un ohonynt

¹² Ap negeseua symudol aml-lwyfan yw WhatsApp sy'n eich galluogi i gyfnewid negeseuon

¹³ Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cynnal gwiriadau o gofnodion troseddol ar gyfer darpar gyflogeion a chyflogeion presennol, ar ran cyflogwyr, er mwyn sicrhau bod unigolion yn addas i gael eu cyflogi yn y rôl a gynigir.

wedi cwblhau cyfnod prawf o dri mis. Ar ôl iddynt gwblhau hyn, roedd arfarniadau blynyddol yn cael eu cynnal â'r tîm rheoli er mwyn cefnogi eu datblygiad parhaus.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru i ymarfer â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac yn meddu ar yswiriant indemniad priodol. Gwelsom fod tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus y practis yn cael ei harddangos yn y dderbynfa.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rhoddwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os byddwn yn nodi unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, hysbysir darparwr cofrestredig y gwasanaeth drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried i ba raddau y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2017](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol			

Atodiad B – Cynllun Gwella Uniongyrchol

Gwasanaeth: Parkway Dental Clinic

Dyddiad arolygu: 24/08/2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella uniongyrchol sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol am gydymffurfio.				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Parkway Dental Clinic

Dyddiad arolygu: 24/08/2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Rhaid i'r practis sicrhau bod urddas y cleifion yn cael ei gynnal bob amser.	4.1 Gofal gydag Urddas	Rydym wedi mynd i'r afael â hyn drwy osod gwydr barugog yn y paneli ar ddrysau pob ystafell driniaeth lle mae'r gadair yn wynebu'r drws, er mwyn sicrhau preifatrwydd ac urddas y claf.	Sian Majoe	Cwblhawyd 25 Awst 2021
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Rhaid i'r practis sicrhau y caiff cofnodion y cleifion eu cwblhau'n unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.	3.5 Cadw cofnodion	Rydym wedi siarad â phob ymarferydd mewn perthynas â'r hyn y mae disgwyl i gofnodion y cleifion ei gynnwys.	Sian Majoe/Darren Owakee	Rhoddwyd hyn ar waith ar 25 Awst 2021 ac mae'n cael ei

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Rydym wedi ychwanegu negeseuon atgoffa i dudalen archwilio SOE (sef meddalwedd deintyddol) fel y bydd modd i'r ymarferwyr fynd drwy'r rhestr wirio fel sy'n ofynnol.		fonitro gan ein Hymarferydd clinigol arweiniol Dr Darren Owakee yn wythnosol.

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Sian Majoe

Swydd: Rheolwr Cofrestredig a Chyfarwyddwr Gweithredol

Dyddiad: 20/09/21